

TREFN YCHWANEGOL AR GYFER BEDYDDIO PLANT IFANG

Cafodd y litwrgi hwn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Ffydd
a Threfn 27 ar Ionawr 2018

AN ADDITIONAL ORDER FOR THE BAPTISM OF YOUNG CHILDREN

This liturgy was approved by the Faith and Order Committee
on 27 January 2018

TREFN YCHWANEGOL AR GYFER BEDYDDIO PLANT IFANC

Dim ond pan fydd *plant ifanc yn cael eu bedyddio* y mae'r gwasanaeth hwn i'w ddefnyddio.

- 1 Fel arfer mae'r Sacrament o Fedydd yn digwydd yn ystod addoliad cyhoeddus. Mae'n well os bydd yn dilyn y bregeth, ond mae'n bosib ei ddefnyddio cyn Gweinidogaeth y Gair.
- 2 Os oes *canhwyllau* i'w rhoi i'r rhai sy'n cael eu bedyddio, dylen nhw gael eu cynnau o'r Gannwyll Basg neu gannwyll gafodd ei chynnau ar ddechrau'r gwasanaeth.
- 3 Dylai gweddïau ar gyfer y rhai gafodd eu bedyddio a'u teuluoedd gael eu cynnwys yn y gweddïau o eiriolaeth.
- 4 Bydd y gweinidog yn gofalu bod rhieni bob plentyn gafodd ei fedyddio yn derbyn tystysgrif Bedydd yn ystod neu ar ôl y gwasanaeth.

1 Emyn

Y DATGANIAD

- 2 Mae Bedydd yn arwydd o gariad Duw.

Ynndo dan ni'n dathlu bywyd Crist gafodd ei roi droson ni, yr Ysbryd Glân gafodd ei dywallt arnon ni, a'r dŵr sy'n rhoi bywyd sy'n cael ei gynnig i ni.

Dan ni'n ymateb i eiriau a gorchymyn Iesu, wnaeth ddweud:

"Dw i wedi cael awdurdod llwyr i reoli popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear. Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glan. A dysgwch nhw i wneud popeth dw i wed'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes byd diwedd y byd wedi dod."

AN ADDITIONAL ORDER FOR THE BAPTISM OF YOUNG CHILDREN

This service is used when **only** *young children are to be baptized*.

- 1 The Sacrament of Baptism is normally administered during an act of public worship. It is preferable that it follow the sermon, but it may be used before the Ministry of the Word.
- 2 If *candles* are to be given to the newly-baptized, *they* may be lit from the Easter Candle or some other candle lit at the beginning of the service.
- 3 Prayers for *those* who have been baptized, and for *their* families, should be included in the prayers of intercession.
- 4 The minister shall ensure that a certificate of Baptism is given to the *parents* of each newly-baptized child during or after the service.

1 Hymn

THE DECLARATION

- 2 Baptism is a sign of God's love.

In it we celebrate the life of Christ laid down for us,
the Holy Spirit poured out on us,
and the living water offered to us.

We respond to the words and command of Jesus, who said:

'All authority in heaven and on earth has been given to me. Go therefore and make disciples of all nations, baptizing them in the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit, and teaching them to obey everything that I have commanded you. And remember, I am with you always, to the end of the age.'

Mae'n bosib darllen rhannau eraill o'r ysgrythur (e.e. Actau 2:38-39, Eseaia 43:1-2a, Eseciel 36:25a, 26a, Mathew 19:13-15, Rhufeiniaid 6:3-4, Titus 3:4-7, 1 Pedr 2:9.) Gallai y gweinidog roi geiriau eraill o gyflwyniad neu eglurhad.

Lle mae yna gyfeiriad yn y patrwm Cymraeg at ryw y plentyn mae'r patrwm benywaidd yn dod yn gyntaf, y gwrywaidd yn ail a'r lluosog yn drydydd.

3 Mae'r gweinidog neu berson arall yn gofyn un ai:

A a B (A), dach chi isio i E gael ei bedyddio?

NEU

A a B (A), dach chi isio i E gael ei fedyddio?

NEU

A a B(A), dach chi isio i (E a E) gael eu bedyddio?

Ateb: Ydan /Ydw.

Heddiw felly dan ni'n croesawu E (E a E) i aelwyd Duw.

UN AI

Trwy ddod â E i'w bedyddio
dan ni'n cadarnhau bod Duw yn ei charu hi

NEU

Trwy ddod â E i'w fedyddio
dan ni'n cadarnhau bod Duw yn ei garu o

NEU

Trwy ddod â E a E i'w bedyddio
dan ni'n cadarnhau bod Duw yn eu caru nhw
ac yn cadarnhau ein gobaith ni yn addewid Duw i'r byd.

Other sentences of scripture (for example Acts 2:38-39, Isaiah 43:1-2a, Ezekiel 36:25a, 26a, Matthew 19:13-15, Romans 6:3-4, Titus 3:4-7, 1 Peter 2:9 may be read). The minister may give other words of introduction or explanation.

3 The minister or another person says:

A and B (A), do you wish *N (N and N)* to be baptised?

Answer: We/I do.

Today therefore we welcome *N (N and N)* into the household of God.

By bringing *N (N and N)* for Baptism we affirm God's love for *her/him*, and our hope in God's promise for the world.

Y DIOLCHGARWCH UWCHBEN Y DŴR

4 Pawb sy'n medru sefyll i sefyll

Mae'r rhieni a'r rhieni bedydd yn dod at y bedyddfa efo'r sawl sy'n cael eu bedyddio. Lle mae'n bosib, dylai aelodau o'r teulu neu o'r eglwys fod â rhan mewn dod â dŵr i'r fedyddfa. Dylid tywallt y dŵr i'r fedyddfa.

Mae'r gweinidog yn sefyll wrth y fedyddfa ac yn dweud:

Dduw cariadus
diolch i ti am dy was Moses,
wnaeth arwain dy bobl di drwy ddŵr y Môr Coch
i ryddid yng Ngwlad yr Addewid.
Diolch i ti am dy Fab, Iesu,
sy wedi pasio trwy ddyfroedd dwfn marwolaeth
ac wedi agor ffordd achubiaeth i bawb.

Mae'r gweinidog yn gallu estyn ei dwylo/ei ddwylo dros y dŵr:

Tywallt dy Ysbryd Sanctaidd
fel y bydd y sawl sy'n derbyn bedydd
yn marw i bechod, yn cael eu codi gyda Christ
ac yn cael eu geni i fywyd newydd yn nheulu dy Eglwys di.
Dan ni'n gofyn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

DATGANIAD O FFYDD

5 Mae'r bobl yn dal i sefyll.

Mae'r gweinidog yn gofyn i'r *rhieni (a'r rhieni bedydd)*:

Ydych chi'n troi oddi wrth ddrygioni a phopeth sy'n gwadu Duw?

Ateb: Ydw, trwy ras Duw.

Ydych chi'n troi at Dduw, gan drystio yn yr Arglwydd Iesu sy'n eich caru chi a'r *plant yma*, a thrystio yn yr Ysbryd Glân fydd yn dy helpu a'ch arwain chi?

Ateb: Ydw, trwy ras Duw.

THE THANKSGIVING OVER THE WATER

4 All stand, as able

The parents and godparents gather round or near the baptistery or font, with those to be baptized. Wherever possible, members of the family or church should be involved in bringing water to the font. The water is poured into the font.

The minister stands at the font or baptistery and says:

Loving God,
we thank you for your servant Moses,
who led your people through the waters of the Red Sea
to freedom in the Promised Land.
We thank you for your Son Jesus,
who has passed through the deep waters of death
and opened for all the way of salvation.

The minister may extend her/his hands over the water:

Pour out your Holy Spirit
that *those/the one* baptized in this water
may die to sin, be raised with Christ,
and be born to new life in the family of your Church.
We ask this through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

THE AFFIRMATION OF FAITH

5 The people remain standing.

The minister says to the *parents (and godparents)*:

Do you turn away from evil and all that denies God?

Answer: By the grace of God, I do.

Do you turn to God, trusting in the Lord Jesus who loves you
and *these children*, and in the Holy Spirit who will help and guide
you?

Answer: By the grace of God, I do.

6 Mae'r gweinidog yn dweud wrth bawb:

UN AI

Mewn geiriau sy wedi cael eu pasio i lawr drwy'r canrifoedd, dan ni'n datgan ffydd yr Eglwys. Mae'r geiriau hyn yn perthyn i bawb sy wedi dod at ei gilydd yn enw Iesu erioed. Dan ni'n rhannu ynddyn nhw heddiw.

Ydych chi'n credu yn Nuw y Tad ac yn ymddiried ynddo?

**Dw i'n credu yn Nuw, y Tad hollbwerus,
crëwr y nefoedd a'r ddaear.**

Ydych chi'n credu yn Nuw y Mab ac yn ymddiried ynddo?

**Dw i'n credu yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd
gafodd ei genhedlu gan yr Ysbryd Glân,
gafodd ei eni o Mair Forwyn,
wnaeth ddiodde o dan Pontius Peilat,
gafodd ei groeshoelio, wnaeth farw a chael ei gladdu;
aeth i lawr at y bobl sy'n farw.
Ar y trydydd dydd cododd yn ôl yn fyw;
aeth i fyny i'r nefoedd,
mae'n eistedd ar law dde y Tad,
a bydd o'n dod i farnu y bobl byw a'r bobl marw.**

Ydych chi'n credu yn Nuw yr Ysbryd Glân ac yn ymddiried ynddo?

**Dw i'n credu yn yr Ysbryd Glân,
yn yr Eglwys gatholig sanctaidd,
yng nghymunedb y seintiau,
ym maddeuant pechodau,
yn atgyfodiad y corff,
ac yn y bywyd sy'n para am byth. Amen**

NEU

Ydych chi'n credu yn Nuw y Tad, tarddiad bywyd a phopeth sy'n bod ac yn ymddiried ynddo?

Ydan

6 The minister says to everyone present:

EITHER

In words that have been passed down through the centuries, we proclaim the faith of the Church. They belong to all who have ever gathered in Christ's name. We share in them today.

Do you believe and trust in God the Father?

**I believe in God, the Father almighty,
creator of heaven and earth.**

Do you believe and trust in God the Son?

**I believe in Jesus Christ, God's only Son, our Lord,
who was conceived by the Holy Spirit,
born of the Virgin Mary,
suffered under Pontius Pilate,
was crucified, died, and was buried;
he descended to the dead.
On the third day he rose again;
he ascended into heaven,
he is seated at the right hand of the Father,
and he will come to judge the living and the dead.**

Do you believe and trust in God the Holy Spirit?

**I believe in the Holy Spirit,
the holy catholic Church,
the communion of saints,
the forgiveness of sins,
the resurrection of the body,
and the life everlasting. Amen.**

OR

Do you believe and trust in God the Father,
source of all being and life?

We do.

Ydych chi'n credu yn Nuw y Mab, yr un wnaeth farw droson ni a dod yn ôl yn fyw ac yn ymddiried ynddo?

Ydan

Ydych chi'n credu yn Nuw yr Ysbryd Glân, yr un sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw ac yn ymddiried ynddo?

Ydan

Dyma ffydd yr Eglwys.

Y BEDYDD

7 Mae'r gweinidog yn dweud wrth *rieni* bob plentyn

Pa enw dach chi wedi roi i'r plentyn yma?

Mae'r rhieni yn ymateb efo enw(au) bedydd y plentyn.

8 Mae'r gweinidog yn dweud wrth y rhai sy'n mynd i gael eu bedyddio:

E ac E (E)

er dy fwyn di daeth Iesu Grist i'r byd;

er dy fwyn di wnaeth o fyw a dangos cariad Duw ;

er dy fwyn di wnaeth o ddiodde marwolaeth ar y groes;

er dy fwyn di wnaeth o orchfygu marwolaeth,

a codi i fywyd newydd;

er dy fwyn di, mae o'n gweddio ar law dde Duw:

hyn i gyd er dy fwyn di

cyn oeddet ti'n medru gwybod dim ohono.

Yn dy Fedydd, mae gair yr Ysgrythur yn cael ei gyflawni:

"Dan ni'n caru'n gilydd am fod Duw wedi'n caru ni gyntaf."

9 Gyda'r plentyn yn ei b/freichiau mae'r gweinidog yn tywallt digon o ddŵr ar ben y plentyn neu yn dipio'r plentyn yn y dŵr tair gwaith, gan sôn am bob Person yn y Drindod Sanctaidd:

E dw i'n dy fedyddio di

Yn enw'r Tad

a'r Mab

a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Do you believe and trust in God the Son,
who died for us and rose again?

We do.

Do you believe and trust in God the Holy Spirit,
who gives life to the people of God?

We do.

This is the faith of the Church.

THE BAPTISM

- 7 The minister says to the *parents* of each child:

What name have you given this child?

The *parents* respond with the Christian name(s) of the child.

- 8 The minister may say to *those* to be baptised:

N and *N* (*N*),

for you, Jesus Christ came into the world;

for you he lived and showed God's love;

for you he suffered death on the cross;

for you he triumphed over death,

rising to newness of life;

for you he prays at God's right hand:

all this for you,

before you could know anything of it.

In your Baptism, the word of Scripture is fulfilled:

'We love, because God first loved us.'

- 9 The minister, taking each child into her/his arms, pours water generously and visibly on the child's head, or dips the child in water three times, once at the mention of each Person of the Holy Trinity, saying:

N, I baptize you
in the Name of the Father,
and of the Son,
and of the Holy Spirit. **Amen.**

Mae'r gweinidog yn dweud wrth yr un gafodd ei fedyddio:

E a E (E) gyda gorfoledd a diolchgarwch dan ni'n dy groesawu di i mewn i Eglwys Crist i rannu efo ni ym mywyd a gweinidogaeth Crist.

Mae'r gweinidog yn gallu gwahodd y gynulleidfa i guro dwylo.

Mae'r gweinidog yn gwneud arwydd y groes ar dalcen bob plentyn gafodd ei fedyddio gan ddeud:

E dw i'n rhoi arwydd y groes, arwydd Crist, arnat ti.

10 Mae'r bobl yn eistedd.

Mae'n bosib rhoi kannwyll wedi ei chynnau i *rieni* neu *rieni bedydd* bob plentyn. Dylai'r gannwyll aros wedi cynnau yn ystod y gweddïau a'r addewidion sy'n dilyn.

Mae'r gweinidog neu rywun o'r eglwys leol yn dweud wrth y *plant*:

E ac E (E),
derbynia'r golau yma,
achos rwy'ti'n perthyn i Grist, Golau'r byd.

Crist ydy dy Olau a dy ffordd.
Cerdda yn ffordd Crist.

11 Pawb i ddweud neu ganu:

**Boed i'r Arglwydd dy fendithio di a dy gadw di;
Boed i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnat ti
a bod yn raslon wrthat ti
Boed i'r Arglwydd edrych yn garedig arnat ti
a rhoi heddwch i ti. Amen.**

ADDEWIDION Y BEDYDD

12 Mae'r *rhieni* (a'r *rhieni bedydd*) yn sefyll.

Mae'r gweinidog yn dweud wrth y *rhieni*:

O'r dydd yma bydd gan *E ac E (E)* gartref yn y gymuned Gristnogol,
a bydd yna bob amser le iddyn *nhw*
yng nghartref Duw.

The minister says to the newly baptized:

N and N (N), with joy and thanksgiving we welcome you into Christ's Church to share with us in the life and ministry of Christ.

The minister may invite the congregation to celebrate the baptism with applause.

The minister makes the sign of the cross on the forehead of each newly-baptized child, saying:

N, I sign you with the cross, the sign of Christ.

10 The people sit.

A lighted candle may be given to the *parents or godparents* of each child. The candle should remain lit during the prayers and promises that follow.

The minister or a representative of the local church says to the *children*:

N and N (N),
receive this light,
for you belong to Christ, the Light of the world.

Christ is your Light and your way.
Walk in the way of Christ.

11 All say or sing:

**The Lord bless you and keep you;
The Lord make his face to shine on you
and be gracious to you;
the Lord look on you with kindness
and give you peace. Amen.**

THE BAPTISMAL PROMISES

12 The *parents (and godparents) stand*.

The minister says to the *parents*:

From this day *N and N (N)* will have a home in the Christian community, and there will always be a place for *them* in the household of God.

Wnewch chi ddweud *wrthyn nhw* am heddiw,
a datgelu *iddyn nhw* y trysor *maen nhw* wedi ei dderbyn
fel y *byddan nhw*'n gwybod eu bod *nhw* wedi eu bedyddio,
ac felly yn *tyfu* yng Nghrist
ac yn ymateb eu *hunain* mewn ffydd a chariad?

Mi wnawn ni, efo help Duw.

Wnewch chi roi esiampl Gristnogol i'r plentyn
fel y *bydd hi* trwy eich gweddïau, eich geiriau a'ch gweithredoedd
yn dysgu ffordd Crist?

NEU

Wnewch chi roi esiampl Gristnogol i'r plentyn
fel y *bydd o* trwy eich gweddïau, eich geiriau a'ch gweithredoedd
yn dysgu ffordd Crist?

NEU

Wnewch chi roi esiampl Gristnogol i'r plentyn
fel y *byddan nhw* trwy eich gweddïau, eich geiriau a'ch
gweithredoedd
yn dysgu ffordd Crist?

Mi wnawn ni, efo help Duw.

13 Os oes *rhieni bedydd*, mae'r *gweinidog yn dweud wrthyn nhw*:

C a D (C),
wnewch chi helpu'r *rhieni* i ofalu am *E ac E (E)*
a'u magu *nhw* yn y ffydd Gristnogol?

Mi wnawn ni, efo help Duw.

Will you tell *them* about today,
unfold for *them* the treasure *they* have received,
so that *they* may know *they* are baptized, *grow* in Christ,
and make *their* own response in faith and love?

With God's help, we will.

Will you set before *them* a Christian example,
that through your prayers, words and actions
they may learn the way of Christ?

With God's help, we will.

13 If there are *godparents*, the minister says to *them*:

C and *D* (*C*),
will you help *these parents* to care for *N* and *N* (*N*),
and to bring them up in the Christian faith?

With God's help, we will.

ADDEWID Y BOBL

14 Mae'r gweinidog yn dweud wrth y bobl:

Aelodau Corff Crist, dan ni'n llawenhau bod *E* ac *E* (*E*) wedi cael eu bedyddio. Dan ni'n cael ein galw i rannu ym mywyd yr Eglwys o addoli a gwasanaethu.

Wnewch chi fod yn eglwys sy'n eu helpu yn eu ffydd, yn eu cynnal mewn gweddi ac yn eu hannog i wneud cymwynas ac i wasanaethu fel Cristion?

Mi wnawn ni, efo help Duw.

15 Mae'r bobl yn eistedd.

Mae'n bosib cyflwyno Beibl neu lyfr arall.

Mae'n bosib cyflwyno tystysgrif Bedydd.

16 Mae'r gweinidog yn dweud:

Gadewch i ni weddio.

**Duw gras a bywyd,
yn dy gariad rwyd ti wedi
rhoi lle i ni ynghanol dy bobl;
cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd,
a pharatoa ni ar gyfer y dydd gogoneddus
pan fydd yr holl greadigaeth yn cael ei wneud yn berffaith
yn dy Fab ein Hachubydd Iesu Grist. Amen.**

17 Gweddi'r Arglwydd, os nad yw'n cael ei ddweud ar ryw adeg arall yn y gwasanaeth.

THE PROMISE OF THE PEOPLE

14 The minister says to the people:

Members of the Body of Christ, we rejoice that *N and N (N)* have been baptised. We are called to share in the Church's life of worship and service.

Will you be a church where *they are* helped in faith, upheld in prayer, and encouraged in acts of kindness and Christian service?

With God's help, we will.

15 The people sit.

A Bible or some other book may be given.

A certificate of Baptism may be given.

16 The minister says:

Let us pray.

**God of grace and life,
in your love you have given us
a place among your people;
keep us faithful to our baptism,
and prepare us for that glorious day
when the whole creation will be made perfect
in your Son our Saviour Jesus Christ. Amen.**

17 The Lord's Prayer, if it is not said at some other point in the service

UN AI

Dan ni'n dweud efo'n gilydd y weddi roddodd Iesu i ni.

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbryn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu
a'r gogoniant am byth. Amen.**

NEU

Fel gwnaeth ein Hachubwr ddysgu ei ddilynwyr, dan ni'n gweddïo:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy Enw:
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r nerth a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

EITHER

We say together the prayer that Jesus gave us:

**Our Father in heaven,
hallowed be your Name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom,
the power and the glory are yours,
now and for ever. Amen.**

OR

As our Saviour taught his disciples, we pray:

**Our Father,
who art in heaven,
hallowed be thy Name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day
our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom, the power, and the glory,
for ever and ever. Amen.**

[NEU dyma Gweddi'r Arglwydd o beibl.net Efengyl Mathew]

Ein Tad sydd yn y nefoedd,
dan ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.
Dan ni eisiau i ti ddod i deyrnasu,
ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di
ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.
Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw am heddiw.
Maddau i ni am bob dyled i ti
yn union fel dan ni'n maddau i'r rhai sy mewn dyled i ni.
Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi, ac achub ni
o afael y drwg.
Achos ti biau'r deyrnas, a'r pŵer a'r gogoniant rŵan ac am byth.
Amen.

18 Emyn

Mae'r rhai sydd newydd eu bedyddio yn mynd yn ôl i'w seddi.
Mae'n bosibl diffodd y gannwyll.

19 Mae'r gwasanaeth yn mynd yn ei flaen.

18 Hymn

The newly baptised and those accompanying them return to their places. The candle may be extinguished.

19 The service continues.